# Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## (CWLS(2) 07-05 (p2))

Dyddiad y cyfarfod: 15 Mehefin 2005

Amser y cyfarfod: 9.00am - 12.15pm

Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Cymdeithas Meysydd Chwarae Cenedlaethol

#### MEYSYDD CHWARAE CYMRU

#### Pwrpas

Mae Cymdeithas Meysydd Chwarae Cenedlaethol yn gorff annibynnol sydd yn gweithio i sicrhau argaeledd, gwarchodaeth, a datblygiad o ansawdd uchel, cyfleusterau lleol a ddefnyddiwyd yn aml ar gyfer chwaraeon awyr agored, chwarae ac adloniant er lles a mwynhad y gymuned

#### Cefndir

- Cafodd Cymdeithas Meysydd Chwarae Cenedlaethol ei sefydlu yn 1925
- Elusen cofrestredig – yn hollol ddibynnol ar rhoddion oddiwrth ymddiriedolaethau, cwmnïau ac unigolion. Yn derbyn dim arian oddiwrth y Llywodraeth na unrhyw gorff cyhoeddus (arwahan i Gymdeithas Feysydd Chwarae Cenedlaethol yr Alban)
- Mae gan Gymdeithas Meysydd Chwarae Cenedlaethol bedair swyddfa – Llundain, Cofentri, Caeredin a Chaerdydd ac yn cyflogi pymtheg o bobl
- Cafodd Meysydd Chwarae Cymru ei sefydlu yn 1998 fel pwyllgor o’r elusen ac mae yn awr yn cyflogi Swyddog Datblygu a Gweinyddwr Swyddfa rhan amser
- Cadeirydd Pwyllgor Meysydd Chwarae Cymru yw Lewis Evans a mae gan yr aelodau wybodaeth arbenigol yn y gwahanol feysydd yr ydym yn gweithio ynddo

#### Prif Waith

- Prif waith Meysydd Chwarae Cymru yw gwarchod a gwella tir adloniant – ein bwriad drwy y Deyrnas Unedig yw gwarchodi erw bob diwrnod erbyn 2010
- Mae meysydd yn cael eu gwarchodi am byth drwy berchenogaeth, gweithredoedd cysegru a chymafodau. Rôl Meysydd Chwarae Cymru yw gwarchodol a chynghorol gyda rheolaeth y

meysydd yn gyfrifoldeb ymddiriedolwyr lleol
- Ar hyn o bryd, mae Meysydd Chwarae Cymru yn gwarchod 156 o safleoedd, a mae'r cyfanswm yn dod i tua 624 erw
- I ddathlu cydnabyddiaeth chwe chan mlynedd o fywyd Owain Glyndwr, mae y 22 o awdurdodau unedol Cymru wedi cael eu gofyn i enwi o leiaf un safle fel Maes
- Owain Glyndwr a sicrhau gwarchodaeth am byth drwy gytuno i weithredoedd cysegru
- Mae Meysydd Chwarae Cymru yn ymgyrchu i sicrhau bod pwysigrwydd tir agored ar gyfer iechyd a hapusrwydd y boblogaeth yn cael ei werthfawrogi
- Mae Meysydd Chwarae Cymru yn annog y fan leiaf o chwe erw o dir chwarae agored ar gyfer 1,000 o'r boblogaeth – Y Safon Chwe Erw
- Mae Meysydd Chwarae Cymru yn cynghori ar lawer o faterion fel draeniad caeau chwarae i addasrwydd offer chwarae plant a hefyd yn cynhyrchu llawer o gyhoeddiadau priodol

## Amcanion

- Sicrhau fod rhywle i'w gael gan phawb ar gyfer chwaraeon, chwarae ac adloniant yn agos i'w cartrefi.
- Cynyddu maint o dir sydd o dan warchodaeth ac atal colled o dir cyfoes
- Gwella safon cyfleusterau adloniant
- Cynnig cyngor a chyfarwyddyd ar chwaraeon, chwarae ac adloniant

## Ers iddo gael ei sefydlu yn 1998, mae Meysydd Chwarae Cymru wedi…

- Sefydlu pedwar Maes Owain Glyndwr yng Nghaerffili, Llanellen, Brynbuga a Machynlleth
- Cynyddu y nifer o Feysydd Brenin Siôr – dau safle yn Abertawe ac un ym Mhontardawe
- Meddiannu tir adloniant yn Llangybi a gosod offer chwarae newydd
- Ffurfio rhan o Grwp Cyngor Technegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn adolygu Nodiad Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Thir Agored
- Hyrwyddo y Safon Chwe Erw – cymeradwyaethau wedi ei mabwysiadu gan 80% o Gyngorau Sir
- Helpu cynllunio cymeradwyaethau y Polisi Chwarae cyntaf yng Nghymru
- Sefydlu yr unig data-bas o feysydd chwarae o dan fygwth yng Ngymru – cefnogi ymgyrchoedd yn erbyn colled meysydd chwarae
- Gwneud arolygiadau ar y nifer o fannau chwarae yng Ngymru – gostyngiad o 10% o fannau chwarae o dan ofal y Cynghorau Sir rhwng 2000 a 2003
- Cynghori rheolwyr meysydd chwarae ar faterion tir adloniant – miloedd o bamffledi a chyhoeddiadau wedi eu dosbarthu
- Trefnu a cynnal seminarau rhanbarthol ar warchodaeth tir yng Nghaerfyrddin, Rhyl, Machynlleth a Chaerdydd a fynychwyd gan cynrychiolwyr o awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol a gwirfoddol
- Cynhyrchu a dosbarthu ein cylchllythyr 'Caeau Cymru'
- Trefnu rhaglenni 'Pel–Fasged Hanner Nos', y Gwobrau Cenedlaethol Chwaraeon Ysgolion Cymru, cynhyrchu geiriadur dwyieithog chwaraeon ac adloniant a sefydlu Canolfan Mileniwm Pillgwenlly yng Nghasnewydd

## Erbyn 2010, mae Meysydd Chwarae Cymru yn anelu i…

- Gyfrannu at cyflawni nod o warchod erw y dydd o dir adloniant o safon uchel, yn enwedig mwy o Feysydd Owain Glyndwr, Meysydd NPFA a thir gwarchodedig eraill
- Fod y corff a ddewiswyd gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ei asiantaethau ac eraill i warchod a chynyddu tir y genedl ar gyfer chwaraeon, chwarae ac adloniant
- Wella safon a defnydd cyfleusterau awyr agored ar gyfer chwaraeaon, chwarae ac adloniant
- Gynyddu ymwybodolrwydd ei gwaith er mwyn creu cymorth ffyddlon a chadarn ledled y wlad
- Gyflawni gwarchodaeth gwell o feysydd chwarae trwy eglurhad gwell o 'Bolisi Cynllunio Cymru'
- Cael arnodiad o'r Cynulliad ar gymeradwyaethau Cymdeithas Meysydd Chwarae Cenedlaethol ar ddarpariaeth tir adloniant
- Sicrhau fod y Cyngorau Sir yn cadw rhestr manwl o'u tir adloniant er mwyn asesu darpariaeth ac unrhyw golled yn y dyfodol
- Perswadio y Cynulliad i arolgu eu gofynion o Gyngor Chwaraeon Cymru fel y cyngorwr stadudol ar geisiau cynllunio sydd yn effeithio meysydd chwarae
- Perswadio Cyngor Chwaraeon Cymru i sicrhau cyfamodau neu gweithredoedd cysegru oddiwrth gyrff sydd yn berchnogion meysydd fel amod darpariad o nawdd loteri
- Perswadio Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cofnod o bob maes chwarae ysgol sydd wedi ei golli
- Perswadio Cynulliad Cenedlaethol Cymru i greu safon lleiafswm meysydd chwarae ysgol ar gyfer gemau tim plant o dan 8 mlwydd oed

## Meysydd Chwarae Cymru a 'Dringo'n Uwch'

*Targed 8*

*Bydd gan bob gweithiwr y sector gyhoeddus a thri chwarter o weithwyr eraill fynediad at gyfleusterau chwaraeon a chyfleusterau gweithgarwch corfforol yn eu man gwaith neu o fewn taith cerdded o ddeng munud*

*Targed 12*

*Ni ddylai unrhyw un fyw mwy na thaith cerdded o chwe munud (300m) o'r man glas naturiol agosaf*

Mae Meysydd Chwarae Cymru yn helpu i gyflawni y targedau hyn drwy ei chymeradwyaethau ar ddarpariaeth tir agored yn y Safon Chwe Erw. Mae'r safon yn cynnwys tir ar gyfer chwaraeon awyr agored a mannau chwarae plant. Ar gyfer cyfleusterau chwaraeon awyr agored, mae'r safon yn cymeradwyo taith gerdded o ddim mwy na 10 - 15 munud. Ar gyfer mannau chwarae plant, fe ddyle fod gwahanol mathau ar gyfer wahanol oedrannau wedi ei dylunio er mwyn eu anghenion arbennig. Mae rhein yn cynnwys mannau bach i plant ifanc o fewn taith gerdded o 1 munud a mannau gyda offer i plant

hun o fewn 15 munud. Mae Cymdeithas Meysydd Chwarae Cenedlaethol yn cwffio dros arnodiad o’r Safon Chwe Erw i fod yn rhan o adolygiad Nodiad Cyngor Technegol 16 Chwaraeon, Adloniant a Thir Agored.

Hefyd, mae Meysyydd Chwarae Cymru yn helpu i gyflawni y targedau hyn drwy weithio gyda awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol i sefydlu tiroedd gwarchodedig e.e Meysydd

Owain Glyndwr a thrwy wrthwynebu colled o feysydd chwarae, os na bydd amodau pendant yn cael eu cwrdd.

Mae’r darpariaeth o ddigon o gyfleusterau yn hanfodol er mwyn cyflawni targedau eraill yn y strategaeth, yn enwedig targedau 1-3, sydd yn anelu am gynnydd yn lefelau gweithgarwch corfforol.

Pwyllgor Meysydd Chwarae Cymru

Lewis Evans (Cadeirydd),

Mari James, Eddie Jones, Hywel Ceri Jones, Ivor Morgan, Peter Morgan, Lady Webb

NPFA Cymru, Ty Sophia , 28 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ

Ffôn: 02920 636110 Ffacs: 02920 636131

E-bost: cymru@npfa.co.uk

www.playing-fields.com

Rhif Elusen: 306070